# Glas

Bwletin misol

Llén natur

Rhif 162

Awst 2021


gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach, adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Llun Bethan Vaughan Davies
30 Mehefin 2021


Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd


Mae elfennau o Brosiect llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

CYMUNED Llén natur

RHIF ELUSEN Cymdeithas Edward Llwyd 1126027

# ‘Mynd â mawn i’r odyn…’




Odyn sychu grawn ger pentre Bont Dolgadfan ger Llanbrynmair
Llun: Duncan Brown Mai 2015

**Mae'r cofnod yma yn ddiddorol - defnyddio mawn i dwymo odyn. Tybed oedd digon o wres mewn mawn i losgi calch - efallai mai odyn grasu/sychu grawn oedd o. Rhaid holi Hywel Madog!**

**❖“Wedi gwneud ychydig o waith ymchwil ynglŷn â’r defnydd o fawn”**, meddai Hywel. Dyma ffrwyth yr ymchwil honno: Yn ôl CH Dodd (‘Industrial Revolution in North Wales’) roedd odynnau calch yn cael eu lleoli yn agos i’r môr oherwydd bod glo yn cael ei fewnforio ar eu cyfer. Cynyddodd y defnydd amaethyddol o galch ochor yn ochor a’r cynnydd mewn cloddio glo (roedd glo o gloddfeydd Malltraeth yn cael ei ddefnyddio i losgi calch yng nghyfnod Siarl II)

Yr oedd rhaid talu treth ar lo a oedd yn cael ei ‘fewnforio’ tan 1831. Yr oedd y dreth yma yn hynod o amhoblogaidd yng ngogledd Cymru oherwydd yr ymdeimlad ei fod yn llesteirio datblygiad economaidd yr ardal. Nodwyd fod ffermwyr yn methu fforddio llosgi calch oherwydd y dreth. Yn 1808 bu ymgais, aflwyddiannus, gan William A Maddox (fel aelod seneddol) i ddileu’r dreth.

**❖Mae’n ddiddorol cymharu gwerth caloriffig glo a mawn;**

| | |
|---|---|
| **Mawn (arferol ~ 30% tamprwydd)** | **10kJ/kg** |
| **Mawn (hollol sych - mewn popty)** | **20kJ/kg** |
| **Glo** | **30kJ/kg** |

Felly y mae x3 mwy o ynni mewn glo i’w gymharu a mawn a fuasai ar gael yn arferol. Yn ychwanegol y mae dwysedd mawn yn is, glo 400kg/m³ 1500 kg/m³ ffactor o x4.

O ran cyfaint fe fuasai angen x12 cymaint o fawn i gael cyfwerth ynni a glô. Dyma pam bod mawn yn ddefnydd aneffeithiol i losgi calch. Does dim problem o ran tymheredd oherwydd yn y bôn llosgi carbon a wneir wrth losgi glo a mawn fel ei gilydd, ond mae’r gwres yn sylweddol llai pwys am bwys mewn mawn. Hefyd mae’n debygol bod problemau ymarferol yn yr odyn oherwydd bod mawn yn cael ei gywasgu (tagu’r tân) heb son y buasai mwy o fawn na chalch yn yr odyn! **Hywel Madog**

**❖Nid odyn i baratoi calch at y tir oedd yr odyn yma**

Diolch i waith Hywel rydym yn gwybod yn eitha sicr nad odyn i baratoi calch at y tir oedd Owen Edwards yn ei wneud yn ei odyn yntau er bod y dechnoleg ar gael iddo yn y cyfnod (roedd odyn galch wedi ei hen sefydlu er enghraifft ar dir William Bulkeley, Llanfechell, Môn.

> **e.e.** : *“..pd. likewise to William Prichard Parry 2s. 6d. for 5 days work in blasting stones in Cae’r Odyn Galch in Bodelwyn…”* - **1 Mehefin 1754**

(parhad) ac wrth gwrs roedd glo ganddo i’w porthi

> *“….My people to day are discharging 3 tons of Coal at Cemaes & carrying them home…”* - **25 Awst 1751**.

**❖Oedd Owen Edwards yn paratoi calch?**

Beth felly oedd Owen Edwards yn gwneud efo’i fawn yn ei odyn yn Ionawr 1824 os nad paratoi calch? Mae dau beth arall a allai ei wneud: un peth oedd crasu neu sychu haidd at ei falu’n haws yn y felin. Pythefnos ar ôl y crasu (honedig) cawn ddau gofnod

> *“Dic yn agor ffosydd yn Cae’r hendra ac efo Neli yn puro Hobad o Haidd at fynd i’r Felin”* - **(2/2/1824)**.

Beth oedd y broses o buro tybed? (Nid oedd son am galch tan fis Mehefin y flwyddyn honno a dim cliw sut ac o ble daeth).

Ond erbyn hyn fe gredwn mai llosgi mawn mewn odyn i fragu cwrw oedd ganddo - ar y 24ain Ionawr dywedodd ei fod “yn darllaw”. Cofnododd ei fod ‘yn darllaw’ teirgwaith neu fwy y flwyddyn, ac ar 2 Mai 1821 cofnododd:

> *“Elin yn darllaw diod fain”.*

**Nodyn:** Ydych chi’n gyfarwydd ar term ‘darllaw’? - Dyma brif ystyr y term gan GPC: **“Paratoi diod (fel rheol cwrw &c.), bragu, macsu…”.**

# Cardwenyn yn rhoi trefn ar eu tŷ

**Ar ôl cyflafan, cardwenyn yn rhoi trefn ar eu tŷ.**





Dyma beth welodd Dochie Mac, ein cyfaill o’r Alban, y mis hwn:



*I came across this ground bees’ nest along the edge of a field at Kilberry, Argyll on the 9th July 2021 after silage had been cut and foraged. The next morning it was evident that the bees had been busy collecting moss that was surrounding the nest and created a protective dome over the nest.’*

# …yn ôl y cynhyrchiant y paneli solar!

**Heulwen Rhuthun** - Er gwaetha'r mis Mai cymylog eleni, roedd y tri mis, o fis Mawrth i fis Mai, y trydydd mwyaf heulog o fewn y 10 mlynedd dwytha yn fy ngardd i yn Rhuthun. Dyna dwi'n gredu o sbio ar gynnyrch trydan fy mhaneli haul. **Iwan Williams**




**Pa mor agos ydi’r berthynas rhwng ‘heulwen’ a kWh pelydrau uwchfioled tybed?**

## Parhad o Glas161: pabi Cymreig Norman Closs-Parry

**Y PABI CYMREIG -** Y dydd Sadwrn olaf ym mis Mehefin 1959 y gwelais 'o' am y tro cyntaf; yr oeddwn yn rhan o griw yn cael Ysgol Evan Roberts [y warden enwog] yng Nghwm Idwal, ac yn ystod y daith dangosodd y blodyn yn ei holl ogoniant a ni.

Cariad ar yr olwg gyntaf. Deunaw oed oeddwn, yn fyfyriwr ym Mangor, heb gael mwy o ysgol yn y pethau hyn (botaneg ymarferol) nag a gawsom yn crwydro cynefin Y Fach-wen' yn Arfon. Yn sicr i chi nid oeddwn wedi gweld y Pabi Cymreig yn y cynefin hwnnw.

Ym 1965 deuthum i'm hail gartref yng Ngharmel, Treffynnon Sir y Fflint. Cefais sioc o weld y Pabi Cymreig yn lled gyffredin yn y fro, conglau gerddi, ffin y ffyrdd ac ati.... Edrychai i mi ei fod yma' mhob man OND yn fy libart i, "Paid â phoeni!" medd cyfaill wrthyf, "mae 'na ddigon acw, mi botia i flodyn neu ddau i ti." Felly bu. Am ychydig flynyddoedd yr oedd 'Duw yn y nefoedd,' neu'r Pabi Cymreig (fy ffefryn) yn y 'planter' mawr yn y gornel, a'i hil wedi ei ymrannu a'u plannu yn fy ngardd flêr, yng nghysgod llwyn prifed. Doedd hwnnw hefyd yn 'lecio ei le.'

Erbyn hyn, treuliwn fy Sadyrnau yn Fach-wen, haf a gaeaf yn cadw cwmni i'm rhieni oeddynt yn heneiddio, ond wrth eu boddau efo'r wyresau. Sylwais wrth grwydro'r "fro siop Wilias", roedd un neu ddau ar "tro Capel" a chriw yn rhes o flaen y 'Post' - roedd hyn yng nghanol y 70au.

Fel mae'n digwydd, rwyf wedi bod a chonsyrn nad oes UN gennyf yn y ' Planter' ar y patio, ac nad oes olwg o'r rhai ffyniannus oedd yng nghornel y gwrych, mae rhai o hyd yng ngerddi'r fro! Fel y gŵyr llawer – ardal y garreg galch yw'r rhan yma o Sir y Fflint ac y mae llawer o 'erddi' ' tai newydd' yr ardal gyda llawer o rwbel gweithfeydd plwm yn y tir, esgus y gwŷr yw nad oes dim 'iawn' yn tyfu oherwydd y ' calamin ' ! Yn ychwanegol i'm stori garwrol drigain mlynedd a mwy, soniais wrth fy ffrind Dr Goronwy Wynne, Licswm am yr holl stori, a'i ymateb cyntaf i mi oedd nad yw'r blodyn yn gynhenid i Sir y Fflint – Blodyn dŵad ydi o !

**Ga i glorianntu fy ymwybyddiaeth ohono fel hyn felly.**

- Yn ymwybodol o'r fath flodyn Sadwrn olaf 1959 yng nghwm Idwal gydag Efan Roberts.
- Ymwybodol o'i gyffredinoldeb yn ardd Treffynnon – 1965 ymlaen.
- Ymwybodol o'r ymsefydliad yn Fach-wen Arfon 1973/4/5 – ac ymlaen.
- Wedi arbrofi ei dyfu yn yr ardd – yn llwyddiannus am dymhorau – ond ELENI mae wedi 'methu'

**Pennawd y sylwebaeth yn Glas ( Glas 161):**

**Y Pabi Cymreig – Chwyn neu drysor?**

**Atebaf yn bendant**

*'Haul ar fôr neu esgyll nico*
*Pŵl eu haur ger Pabi'r Cymro!'*


**Norman Closs-Parry (ganwyd 1940)**


Gwawr Closs-Griffiths

## O gegin Hugh Rowlands, Llangefni


**Wedi bod yn chwarae gyda dŵr ar bwrdd yn y gegin**, Llangefni, Ynys Môn. Dyma rhai o'r patryma mae'r diferion dŵr yn ei wneud pan maent yn taro ar wyneb y pwll. Mae yna 2 llun 'di tynnu tua dwy neu dair blynedd yn ôl a 2 wedi'u tynnu heddiw 'ma.

- **20 Gorffennaf 2021**









# Codi Beudy'r Morfa

**Dyddiadur Owen Edwards**

**Duncan Brown, Brenda Jones, Hywel Madog, Rwth Tomos, Math Williams**

**Un o hynodion mwyaf dyddiadur Owen Edwards (OE) yw'r cofnod sydd ganddo o'i waith yn 'dofi' morfa'r Glaslyn neu'r Traeth Mawr yn yr 1820au, ddeng mlynedd a mwy ar ôl i Maddocks godi Cob mawr Porthmadog.**

Cyn codi'r cob roedd rhannau mawr o'r traeth (mae union faint yn gwestiwn o hyd) yn dywod aber, er fod sawl cob arall wedi ei godi cyn hynny - un gan Maddocks ei hun - i geisio dofi rhannau o'r Traeth dros gyfnod hwy. Roedd Traeth Mawr mae'n debyg wedi dechrau glasu ers degawdau, os nad canrifoedd, trwy gyfuniad o brosesau naturiol ac amaethyddol.

Mae dyddiadur OE yn mynd â ni yn ôl i'r bywyd amaethyddol ddwy ganrif yn ôl mewn cyfnod o newid mawr. Ond yma mae gennym gronicl syml o godi un beudy, digon dirodres mae'n siwr, ar y morfa. Cyfyd sawl cwestiwn heddiw wrth i ni geisio dehongli cofnodion OE am adeiladu'r beudy hwn o'i gychwyn ym Medi 1824 hyd ei ddefnyddio am y tro cyntaf i gadw gwair ym mis Gorffennaf y flwyddyn ganlynol. Cymerwn mai beudy oedd Beudy'r Morfa gyda llawr uwch yn cyrraedd hanner ffordd i gadw gwair i borthi yn ôl y patrwm lleol (ee. Erw Suran). Nid oes sicrwydd am union leoliad na hanes Beudy'r Morfa erbyn hyn ond mae cof lleol am dro yn y ffordd ger Portreuddyn yn cael ei alw'n '*Cowshed Corner'* (BJ)

Dyma felly hanes codi Beudy'r Morfa (ac wedi meddwl, mae'n enghraifft anarferol efallai o adeilad yn cael ei fedyddio â'i enw am y tro cyntaf, wrth, neu cyn iddo gael ei adeiladu):

## Adeiladu'r muriau

Mae cerrig yn drwm ac mae angen llawer i godi wal.

> **6/9/1824** - *Griffith Evan efo mi yn cymeryd y Cerrig i'w codi at Feudy'r Morfa am bedair Ceiniog y llath*
> **20/9/1824** - *Sion Hugh a Griffith Evan yn dechreu codi Cerrig at Feudy Morfa, yn ei gosod i Owen Owens [Portreuddyn] iw tynu am wyth geiniog y Llath*

Mae Hywel Madog yn rhestru sawl chwarel o fewn cyrraedd cyfleus i Owen Edwards ac i'r gwaith hwn: noda chwarel Portreuddyn SH573409 (agor 18g), Vron SH580420 a Fron Olau SH579409 (twll bychan). 'Twll Maen Grisial' mae'n debyg oedd yr olaf – ffynhonnell gwerthfawr o *Brookite* (Glas 160, Bwletin Llên Natur 154).

Noda hefyd fwynglawdd haearn Llidiart Ysbyty oedd ar agor yn y 1820au o bosib ac hefyd noda chwarel lechi Penmorfa Sh552408 (1820), cloddfa Ty Cerrig SH550409, Ty'n Llan SH554406 (i gyd ar yr Alltwen). Meddai'r daearegydd Math Williams, 'O ran lleoli'r cerrig ar gyfer y beudy, nid oes ond eisiau golwg ar y waliau ac wedyn eu cymharu â'r map daearegol. Mae cerrig Alltwen, Pantifan, Bwlch y Moch a Thwll Maengrisial (igneaidd, dolerit) yn wahanol iawn i'rcerrig yn y waliau rhwng Pontreuddyn a Phrenteg (gwaddodol, cerrig silt a thywod mân budr, a siâl).

Fel arfer agorwyd chwarel fechan mor agos a phosib i'r adeilad; ni fuasai ansawdd y garreg wedi bod yn bwysig i adeilad di-nod fel beudy neu dy gwair. Gallasai'r cerrig fod wedi dod o 'glawddfa'r Alltwen' (lle mae Ysbyty Alltwen heddiw) sef un o fân chwareli yr Allt Wen. Neu fe all fod Griffith Evan wedi tynnu hen wal i lawr. Tybed pam ddyblodd y pris am hyn mewn pythefnos? Cyfeiriodd OE weithiau at Owen Owens Portreuddyn ac weithiau at yr un enw o Ty Llwyd. Yr un person oedd rhain?

Roedd rhaid gwneud y gwaith mesur yn gyntaf…

> **28/9/1824** - *Fi efo Robt. Sion Hendrahowel yn marcio Beudy'r Morfa…*

…cyn dechrau tynnu cerrig.

> **6/10/1824** - *Owen Owens Portreuddyn yn dechreu tynu Cerrig at Feudy'r Morfa.*

Tynnu cerrig o'r graig/chwarel neu o hen waliau efallai oeddynt yn fan hyn? "*Dic efo Owen Owens yn llwytho cerrig*"(18/10/1824). Wedyn roedd yn rhaid paratoi'r sylfaen….

> **8/11/1824** - *Robt. Sion Hendrahowel yn dechreu sylfaenu Beudy'r Morfa*

Gwaith adeiladu fyddai Robat Sion, un o gyd-bysgotwyr OE, yn ei wneud iddo'n fwy na dim ("*Fi yn mynd efo Robt. Sion Hendrahowel at y llyn du i bysgotta, fo yn dal pedwar, fi heb ddal yr un!").*

## Y Gwaith Coed

> **2/12/1824** - *Fi yn mynd i'r Glyn gowarch i edrych Coed at Feudy'r Morfa yn cysgu yno o achos i'r ddryghin fy rhwystro adref.*

Glyn Cowarch oedd cartref Ormsby-Gore, yr Arglwydd Harlech. Hwnnw oedd perchen rhannau helaeth o'r morfa ac roedd Owen Edwards, Fron Olau yn denant iddo? Noda Hywel Madog bod dau gae ar y map degwm sydd yn rhan o Fron Holan (*sic*) – y perchennog oedd Ormsby-Gore. Mae'n dangos bod dofi rhannau o'r morfa yn y cyfnod hwn yng ngafael y rhai mwyaf ariannog. Mae perthynas OE efo'r 'ty mawr' yn cael ei adlewyrchu yma ym mis Gorffennaf 1820: "*Yn gweled Plant Mr. Gore ar y fforth [sic] mewn Trol o'r Glyn Cowarch yn mynd i'r Traeth i ymdrochi….*" Awgryma hyn bod y perchen hwn yn darparu rhai nwyddau i'w denantiaid o'r tŷ. Ymddengys o ymchwil RT a BJ bod Owen Edwards yn berchen tir a ffermdy gwag Ty Mawr trwy etifedd ei dad, ac yn denant ar Fron Olau i Ormsby-Gore.

Bu'n rhaid i OE gael ei goed ar gyfer y beudy o fwy nag un ffynhonnell. Cyn codi tref Porthmadog, Towyn oedd enw'r safle lle saif y dref erbyn hyn (wele Ynys Tywyn heddiw). Yma glaniwyd nwyddau trwm o'r môr fel calch, glo a choed. Doedd dim cei ffurfiol yno hyd 1825 (mae'r map degwm yn awgrymu traeth ochor y môr i bont Britania (y bont hon oedd y 'dorau' gwreiddiol). Nid oedd Cob Crwn heddiw yn bodoli. Mewnforiwyd y 'bôc' ar gyfer y trawslathau a'r distiau â llong i Dowyn; a hynny am nad oedd

coed digon mawr a syth ar gyfer tistiau ar gael yn lleol erbyn yr 1820au (erbyn yr 1830au roedd hyd yn oed coed lloriau tai dwyrain Twtil yng Nghaernarfon yn dod o ogledd America).

Gwnaed dwy siwrne i Tywyn i gael y bociau. Yn ôl GPC bôc oedd Cymreiciad o *balk* (‘*balk of timber*’) neu drawst?

> ***9/12/1824*** - *Fi yn mynd i’r Towyn i edrych Coed at Feudy’r Morfa  Wil Sion yn dwad a’r Drol yno ar fy ol ac yn dwad a dau Fôc adref.*
>
> ***10/12/1824*** - *Wil Sion wedi bod yn Towyn yn nol dau Fôc at y Beudy’r Morfa.*

A dyma’r gwaith trin yn dechrau…

> ***11/12/1824*** -  *Robt. Roberts Tynyberllan* [Penmorfa] *yn dechreu lliffo at feudy’r Morfa*.

Llifio coed oedd hyn, llifio’r bociau mae’n debyg. Ai saer coed oedd Robert Roberts? (Arferai OE gael afalau o Dynyberllan.)

Polion oedd hi nesaf, o Dalsarnau coediog 6km i ffwrdd fel yr hed y fran. Awgrymwn mai polion at y to oedd rhain i’w gosod ar y trawslathau sydd ar y distiau; ac yn cyfateb i goed 2”x4” y dyddiau yma.

> ***14/12/1824*** - *Fi wedi bod efo Wil Sion yn nol llwyth o bolion wrth Dalysarnau at Feudy’r Morfa.*

Ar ôl i Owen Edwards ddangos y gwaith i’r ddau was a dod a llwyth adref efo nhw, anfonodd y ddau wrth eu hunain ddau ddiwrnod wedyn:

> ***16/12/1824*** - *Wil Sion a Robin wedi bod wrth Dalysarnau yn nol llwyth o bolion at Feudy’r Morfa*
>
> ***17/12/1824*** - *Wil Sion a Robin wedi bod wrth Dalysarnau yn nol llwyth diwaethaf o’r Polion at Feudy’r Morfa.*

Cawsant dri llwyth o bolion mewn tri diwrnod. Gwaith diwrnod cyfan felly oedd nol llwyth o bolion o bentref 6km i ffwrdd. Mae’n ddiddorol meddwl pa ffordd y cymerasai’r gweision i Dalsarnau o Brenteg: heibio i Aberglaslyn i Faentwrog ynteu croesi’r Glaslyn mewn lle cyfleus, (lle mae ‘Pont Croesor’ heddiw?) i Garreg ac ymlaen… ac i ble?! Un awgrym arall yw cwch rhwng Talsarnau ac i fyny’r ‘Cut’ i Dremadog? Yr oedd yna ‘*basin*’ ar gyfer llongau yn Nhremadog yn y cyfnod (HM).

Gweision OE mae’n debyg oedd Wil Sion a Robin. Ymddangosodd Wil Sion yn y dyddiadur gyntaf yn 1821, blwyddyn ar ôl i’r dyddiadur ddechrau a Robin yn ymddangos yn 1823. Felly gweision lled sefydlog oedden nhw.

## Y Gwaith Toi a llorio

Roedd angen math arall o garreg i wneud y to a’r llawr wrth gwrs a hynny cyn i chwareli mawr yr ardal gael eu traed ’tanynt):

> ***5/1/1825*** - *Fi wedi bod yn Brondanw yn edrych llechi at doi Beudy’r Morfa*

Ac ar ôl wythnos:

> ***12/1/1825*** - *Wil Sion wedi bod yn Brondanw yn nol dwy siwrna o lechi Toi at Feudy’r Morfa. Y lleill yn hel cerrig i lawr at glawdd Cadlas Beudy’r Morfa.*

Gwnaeth Wil Sion o leiaf chwe ‘siwrne’ i nôl llechi o chwarel Brondanw rhwng 11/1 a 2/2. “Llechi” oedd gair OE pob tro am yr hyn brynodd o Frondanw, ond “teils” gafodd o Rhoslan ger Cricieth. Dyma’r unig dro i OE gyfeirio at ‘teils’ rhwng 1820 ac 1825. (Mewn dyddiadur arall o Niwbwrch yn 1873, soniodd Thomas Jones, am *“…nôl teils llorio dau gant a hanar 12/2 o Caernarvon”*). Tybed ai at lawr Beudy’r Morfa oedd teils Cae Coch, Rhoslan wedi eu bwriadu.  Ynteu yn fwy tebygol, teils crib to.  Ymweliad â Chae Coch amdani!

> ***9/2/1825*** - *Robin wedi bod yn y Caecoch Rhôslan yn nol teils iw rhoi ar* [‘ar’ sylwer] *Feudy’r Morfa.*

Does yr un cofnod o chwarel yn Rhoslan yn ôl ymchwil Hywel Madog ond mae tŷ Cae Coch (hen farm?) ar ochor y lon i’r de o’r pentref hwnnw. Fe dybid mai sintur (neu pridd mineralaidd gwael) fuasai ar lawr beudai fel hyn ac yn y gadlas (ffald) o flaen y drws, ond os felly beth fyddai pwrpas y teils ond i wneud crib to?


Buan iawn y daeth rheolwr chwarel Brondanw am ei arian! Mae olion chwarel heddiw wrth fynedfa’r ffordd fechan i Groesor ger y Frondanw fodern SH616421. Agorodd hon yn 1820 ond llechi gwael oedd yma (HM).

> ***10/3/1825*** - *Gwas Mr Ellis Brondanw yma yn nol arian am Lechi Toi at Feudy’r Morfa.*

Y Parchedig John Ellis oedd hwn; priododd etifedd teulu Williams Brondanw  (1809) a chychwyn teulu Williams-Ellis (HM)

A dyma Beudy’r Morfa ar waith o’r diwedd yn derbyn gwair i borthi’r gwartheg dros y gaeaf, ar ôl 10 mis o weithio arno.

> ***9/7/1825 - Yn carrio gwair yr hen Forfa, Morfa’r garreg a pheth o’r Morfa bach at Feudy’r Morfa***



ucha yn tynu Cerrig. Coed Afalau yn dwad yma oddiwrth John Nicholas Abercirch 7

30 Dydd Mawrth. Diwrnod dwl lled ddrygghinllyd. Y Meibion efo’r Cerrig yn y Weirglawdd ucha. Dic wedi mynd a Farmer i’r Efail ac yn mynd a Lythur at Mr Hollond i ofyn iddo ddwad yma i fedyddio’r Eneth bach 8


31 Dydd Mercher. Diwrnod dwl lled ddrygghinllyd Will wedi mynd i’r Towyn i nol hanner tunell o Glo. Harri yn plygu’r clawdd rhwng Cae’r Hendra a buarth Cae derwen. Hogun Wm Sion Reditg yn dwad a Hesbwrn at y Ty oedd wedi mynd tros y graig. Fi wedi planu Coedan afalau surion wrth yr Afon Rydynhawn Ddoe yn bedyddio’r Eneth bach 9

Chwefror. 1821 10

1 Dydd iau. Diwrnod dwl lled ddrygghinllyd. Ydau Will yn

Pobl wedi rhyfeddu at lawysgrifen hynod daclus Owen Edwards

Dewiswch Gwefan Cliciwch!
Llên natur



# Argyfyngau: Cofid, tywydd eithafol... - Llyn y Gadair a’r Byd

**Yn Glas mis diwethaf, Glas 161, Glas 161 gwelsom bod y tywydd roedd pobl yn ystyried yn boeth dwy ganrif yn ôl (20C+) yn cael ei ystyried yn ‘normal’ heddiw. ‘Fel mae pethau’n newid’ meddai Brenda Jones. Wel dyma ddiwrnod hanesyddol arall a anwybyddwyd yma, y 30 Mehefin 2021, (er i wartheg Llyn y Gadair fod yn ymwybodol iawn ohono) ond a gafodd llawer mwy o sylw rhyngwladol oherwydd yr effeithiau ar Canada.**

Llyn y Gader 30/6/21 **Gwynfor Griffiths**



Gwartheg yn ymoeri ar ddiwrnod o haf yn Rhyd Ddu
(190m. 623tr. uwchlaw’r môr)


Mae adroddiad Gorsaf Dywydd Maes Gwynedd (Waunfawr, 3 tair milltir i ffwrdd) yn rhoi darlun o’r diwrnod hwn, 30 Mehefin 2021 :

**Diolch i Gethin Pritchard am ddarparu’r data hyn.**

D a t a G o r s a f D y w y d d M a e s G w y n e d d


| | |
|---|---|
| Tymheredd | Cyflymder y gwynt |
| 21.9 °C (uchafrif), 10.3 °C (isafrif), 15.2 °C (cyfartaledd) | 8.2 km/h, 0.0 km/h, 1.1 km/h |
| Gwlithbwynt | Plycyn gwynt mwyaf |
| 16.9 °C, 9.3 °C, 12.7 °C | 13.0 km/h |
| Lleithder (%) | Cyfeiriad y gwynt |
| 95, 69, 85 | NNW |
| Gwaddodiad | Pwysedd |
| 0.00 mm | 1,013.24 hPa |
| | 1,011.62 hPa |
| -- -- | -- -- |

Dyma batrwm y tymheredd y diwrnod hwn (uchafbwynt 21.9C - y tymeredd ar y graff mewn Fahrenheit - am tua 1630):




Ond fel y gwelson ni ar y newyddion, doedd hynny ddim i gymharu a beth oedd yn digwydd yng Nghanada:

**Temperatures in Canada and north-west US reached record highs on 29 June**




Canada broke its country temperature record for three straight days on Tuesday - 49.6C (121.3F) in the village of Lytton, British Columbia.

A wildfire has now burned 90% of the village and damaged critical infrastructure, local officials say.

Before Sunday, temperatures in the country had never passed 45C.

**The current heatwave is record-breaking**

**Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!**

Llên natur **Cysylltwch gyda ni:** llennatur@yahoo.co.uk


# Trothwy’r haf: “Diwrnod rhyddid” cyfnod Cofid, rhybudd oren am wres


**Daeth ‘ddiwrnod rhyddid’ yn Lloegr ar 19 Gorffennaf ac mae’r Llywodraeth yn annog Saeson i fod yn “ofalus”.** Mae hi’n boeth iawn, fel ym 1976 meddai Wales OnLine, mae. Dau beth i fod yn ofalus amdanyn nhw, Cofid-19 a gwres mawr - un peth yn unig yn 1976. **Gwres**, **Cofid-19**, **Gwasanaethau brys**, **1976**

WalesOnline

**You might think it's hot now, but this is how Wales looked in the summer of 1976**

The hot weather we're having is nothing compared to the heat wave of 1976 when Wales along with the rest of the UK suffered a severe drought






Meinir Jones
Defaid call yn y gwres
18 Gorffennaf 2021

BBC
cymru fyw
Hafan

**Rhybudd oren cyntaf am wres eithafol i rannau o Gymru**




Mae'r Swyddfa Dywydd wedi cyhoeddi rhybudd am wres eithafol am y tro cyntaf yn y DU, a fydd yn effeithio ar dde Cymru o brynhawn Llun.



# Chwilod grug Llangwnadl



**"Beth yw rhain?"** Meddai Jane Ann Jones.

"Newydd lanio ar y car mae na llwyth ohonyn nhw - Llangwnadl, 20 Mehefin 2021".

CHWILOD GRUG *Lochmaea suturalis* ***Lochmaea suturalis*** : *Heather Beetle | NBN Atlas*. Ond mae yna chwilen *Lochmaea* arall tebyg sy'n bwyta helyg. Ac mae



*Helophora brevipalpis* yn enwog am ymddwyn fel 'pla' (stori isod).
Cafwyd 'pla' tebyg - Waunfawr 10 Ebrill 2020
Ac yn 2018 dyma ddau gofnod nid anhebyg...
23 Mehefin 2018 Miloedd o rhain ar y car rwan [10.00] yn Mynytho, rhan fwyaf wedi marw, pam tybed? **Catherine (Netta) Pritchard**

**[Roedd y tywydd braf a chynnes gydag awel ysgafn y diwrnod hwnnw]**

Mae rhai mathau o chwilod ac anifeiliaid diasgwrncefn eraill yn cael eu denu at arwynebau gloyw. Dyma gofnod berthnasol i hyn daeth Dafydd Lewis ar ei draws tua'r un cyfnod:

*'A friend reports: "We have just been in Wales and had really hot weather. On Saturday we had a plague of beetles – thousands and thousands of little brown beetles filling the air. A lot seemed attracted to cars (perhaps the warmth) but as soon as they landed they fried and died." The location was in Rhiw a small village at the end of the Lleyn peninsula in Gwynedd, North Wales. The grid ref. is SH233286. There was a small pond in the village but we couldn't say for certain that this is where they emerged from but there were lots on the pond vegetation as on pretty much every nearby vehicle. He brought a few specimens with him and I'm pretty sure that most are Helophorus brevipalpis (2.5 mm) but there is one much larger specimen (4.5 mm) that I haven't managed to identify for certain yet. One of his photos shows a larger specimen (apologies for the quality). Is this a known phenomenon? I've not witnessed it before, not for Helophorus at least'.* **Dafydd Lewis**



Dyma ymateb entomolegydd CNC Dr Mike Howe: *"yes, Helophorus brevipalpis Helophorus brevipalpis - UK beetles - is very common and renowned for swarming. On several occasions, I've had large nos of adults 'smothering' the car – they're attracted to shiny surfaces thinking it's open water....."*

Ac yn 2015

Peak Hill, Sidmouth, 6 Ebrill 2015: Ar ddiwrnod braf a chynnes dros y Pasg, Ebrill 2015, roeddwn yn eistedd yn myfyrio yng ngolwg y mor ar Peak Hill, Sidmouth, Dyfnaint, pan fum i'n ymwybodol o'r pryfed yma yn hedfan heibio, fel petae o gyfeiriad y mor. Dyma lwyddo i ddal un efo'm llaw (llun) a gweld mai chwilen oedd yma. Trwy rhyw gyd-ddigwyddiad rhyfeddol pwy ymddangosodd ar lwybr yr arfodir gerllaw oedd dyn yn cario rhwyd pryfeta. Dyma alw arno a gofyn ai pryfetwr oedd o. Ia oedd yr ateb, rhwydo gwenyn oedd ei fusnes y diwrnod hwnnw meddai. Dyma ofyn beth oedd y chwilod bach oedd yn mynd heibio i ni, a dyma fo'n dal un yn rhwydd yn ei rwyd a dweud my math o chwilen dom oedd o ac nid oeddynt wedi dod o'r mor ond yn hytrach yn dilyn eu harferiad o *"hilltopping"* " (beth am 'brynfrigo' fel term Cymraeg?) - sef cyrchu copaon y bryniau am resymau anhysbys (iddo ef beth bynnag). Nid wyf yn gwybod pwy oedd y pryfetwr gwybodus. **Duncan Brown**



# BioBlitz Cwm Nant y Benglog




Yng ngogoniant ardal Tryfan



Ein stondin: Hywel Madog, Dominig Kervegant



Euros Ap Hywel, Hywel Madog, Duncan Brown




Partneriaid y diwrnod



Un o'r teithiau









...5 o sêr ein stondin



Gweithgaredd annisgwyl



...casglu pryfed cop a mwy...



...yng nghwmni Richard Gallon

Fel rhan o Gynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, buom yn cymryd rhan mewn digwyddiad Bioblitz yng Ngwern Gof Isaf yng Nghwm Nant y Benglog heddiw, ddydd Sadwrn 17 Gorffennaf.

Cafodd trap gwyfynod ei osod dros nos a bu Duncan Brown wrthi'n brysur yn eu henwi wedyn yng nghwni'r ymwelwyr.

Y trefnwyr oedd Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mewn partneriaeth â Cofnod, BTO, yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a ni, Llên Natur/ Cymdeithas Edward Llwyd.